

Tâl a Phensiynau

Pensiwn wedi'i leihau'n actiwaraidd

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Pensiwn wedi'i leihau'n actiwaraidd

Mae cyfle gan athrawon 55 oed neu drosodd i ymddeol yn gynnar ar pensiwn wedi'i leihau yn actiwaraidd. Mae ganddynt yr hawl i wneud cais i'w cyflogwyr (yr awdurdod lleol) am ymddeoliad. Nid oes gan y cyflogwr hawl i wrthod y cais ond gall y cyflogwr ohirio'r ymddeoliad am gyfnod o hyd at chwe mis.

Mae pensiwn athrawon wedi ei seilio ar y **cyflog cyfartalog**, sef y gorau o'r canlynol:

- cyfartaledd cyflog pensiynadwy y tair blynedd olynol orau yn ystod y deng mlynedd galendr diwethaf o wasanaeth; ailasesir cyflogau'r blynyddoedd hyn yn unol â'r Mynegrif Prisiau Adwerthol (*Retail Price Index*)
- y cyflog pensiynadwy a dderbyniwyd yn ystod y 12 mis diwethaf cyn dyddiad yr ymddeoliad

Aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon cyn Ionawr 2007

Os oeddech yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Athrawon cyn Ionawr 2007, dyma sut i gyfrifo'ch pensiwn a'ch talpswm yn llawn:

- rhannwch eich cyflog cyfartalog ag 80
- lluoswch yr ateb â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a gyflawnwyd gennych

Dyma fydd eich pensiwn blynyddol. Bydd eich talpswm yn dair gwaith eich pensiwn blynyddol.

Mae'n bosibl dewis cymryd mwy o dalpswm, hyd at 25% o werth eich cronfa pensiwn, gan dderbyn llai o pensiwn blynyddol. Am bob £12 ychwanegol at y talpswm, byddwch yn derbyn £1 yn llai o pensiwn.

Dyma'r fformiwla ar gyfer cyfrifo **uchafswm y talpswm** y gellir ei gymryd:

$$\frac{(\text{pensiwn} \times 20) + (\text{talpswm} \times 20/12)}{4.6667}$$

4.6667

I weld faint fyddai eich pensiwn a'ch talpswm wedi eu lleihau yn actiwaraidd, cyfrifwch, yn gyntaf, eich pensiwn a'ch talpswm llawn fel y nodwyd uchod. Yna, lluoswch y symiau hyn gyda'r ffigurau cyfatebol sydd gyferbyn â'ch oedran yn y tabl isod.

**Tabl 1: Ffactorau lleihad actiwaraid Oed Ymdeol Arferol
(Normal Pensionable Age) o 60**

Oed	Ffactor
55	× 0.773
56	× 0.813
57	× 0.855
58	× 0.900
59	× 0.948

Ffigyrau enghreifftiol

Yn seiliedig ar gyflog cyfartalog o £34,281 a 30 mlynedd o wasanaeth:

$$\text{Pensiwn yn llawn} = \frac{\text{£}34,281 \times 30}{80} = \text{£}12,855.37$$

$$\text{Talpswm yn llawn} = \text{£}12,855.37 \times 3 = \text{£}38,566.11$$

Os ydych chi'n ymdeol yn 55 oed ar bensiwn actiwaraid:

$$\text{Pensiwn } \text{£}12,855.37 \times 0.773 = \text{£}9,937.20$$

(lleihad o £2,918.17 y flwyddyn am weddill eich oes)

$$\text{Talpswm } \text{£}38,566.11 \times 0.773 = \text{£}29,811.60$$

(lleihad o £8,754.51)

Aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon o Ionawr 2007 ymlaen

Os ydych wedi ymuno â'r Cynllun Pensiwn Athrawon o'r newydd ar ôl 1 Ionawr 2007, mae eich pensiwn llawn yn cael ei gyfrifo fel hyn:

- rhannwch eich cyflog cyfartalog gyda 60
- lluoswch yr ateb â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a gyflawnwyd gennych

Dyma fydd eich pensiwn blynyddol. Mae gyda chi'r hawl i leihau eich pensiwn hyd at 25% er mwyn cael talpswm. Gelwir hyn yn **cymudo pensiwn**. Am bob £1 yr ydych yn lleihau eich pensiwn, byddwch yn

derbyn £12 fel talpswm.

Ffigyrau enghreifftiol

- pensiwn o £16,000 y flwyddyn
- cymudo 25% sef £4,000
- yn gwneud pensiwn o £12,000 y flwyddyn a thalpswm o £48,000

I weld faint fydd eich pensiwn a'ch talpswm wedi'u lleihau'n actiwaraid, cyfrifwch, yn gyntaf, eich pensiwn a'ch talpswm llawn fel y nodwyd uchod. Yna, lluoswch y symiau hyn gyda'r ffigurau cyfatebol sydd gyferbyn â'ch oedran yn y tabl isod.

**Tabl 2: Ffactorau lleihad actiwaraid Oed Ymddeol Arferol
(Normal Pensionable Age) o 65**

Oed	Ffactor
55	x 0.582
56	x 0.612
57	x 0.644
58	x 0.678
59	x 0.714
60	x 0.753
61	x 0.795
62	x 0.841
63	x 0.890
64	x 0.943

Ffigyrau enghreifftiol

Yn seiliedig ar gyflog cyfartalog o £34,281 a 30 mlynedd o wasanaeth:

Pensiwn yn llawn = $\frac{£34,281 \times 30}{60}$ = **£17,140.50** (heb unrhyw dalpswm)

Pensiwn yn llawn ar ôl cymudo 25% ar gyfer y talpswm = **£12,855.37**

Talpswm mwyaf y gellir ei gymryd (cymudo 25%): sef $£4,285.12 \times 12$ = **£51,421.50**

Os ydych chi'n ymdeol yn 55 oed ar bensiwn actiwaraidd:

Pensiwn cyn cymudo ar gyfer y talpswm = $£17,140.50 \times 0.582$ = **£9975.77** (Ileihad o £7164.73 y flwyddyn am weddill eich oes)

Pensiwn ar ôl cymudo 25% ar gyfer y talpswm = $£12,855.37 \times 0.582$ = **£7481.82** (Ileihad o £5373.55 y flwyddyn am weddill eich oes)

Talpswm ar ôl cymudo 25% o'r pensiwn = $£51,421.50 \times 0.582$ = **£29,927.31** (Ileihad o £21,494.19)

Pwyntiau eraill i'w hystyried

1. I'r athrawon hynny a ymunodd â'r cynllun pensiwn cyn Ionawr 2007 ac sydd wedi cael toriad mewn gwasanaeth o lai na pum mlynedd, dylid defnyddio'r dull cyntaf o gyfrifo'r pensiwn.
2. I'r athrawon hynny sydd wedi cael toriad mewn gwasanaeth o fwy na 5 mlynedd gan ailymuno â'r cynllun pensiwn ar ôl 1 Ionawr 2007, dylid defnyddio'r 2 wahanol ddull o gyfrifo'r pensiwn sef y dull cyntaf am y rhan cyntaf o'r gwasanaeth a'r ail ddull am y blynyddoedd o wasanaeth ar ôl 1 Ionawr 2007.
3. Unwaith y derbynnir y pensiwn llai, **dyma fydd y pensiwn am weddill oes yr athro**. Ni fydd y pensiwn yn codi i'w lawn werth unwaith y mae'r athro yn cyrraedd 60/65 oed.
4. Nid oes modd prynu ychwanegiad at y blynyddoedd o wasanaeth.
5. Os prynwyd ychwanegiadau at y pensiwn (AVCs) oddi wrth gwmni Prudential, bydd hawl gan athro sy'n derbyn pensiwn wedi'i leihau'n actiwaraidd i dynnu'r rhain allan yr un pryd, os mai dyna'r dymuniad.

6. Os prynwyd AVCs oddi wrth ddarparwr arall, bydd yn dibynnu ar delerau'r cwmni. Bydd y pensiwn o'r AVCs yn seiliedig ar y cyfraniadau hyd at yr oedran mae'r athro yn ymddeol.

Cysylltiadau defnyddiol

Mae gwybodaeth gynhwysfawr am y Cynllun Pensiwn Athrawon i'w gael ar wefan <https://www.teacherspensions.co.uk/>. Mae'n wefan hwylus i'w defnyddio ond mae yn Saesneg yn unig.

Trwy glicio'r pennawd *Calculators* ar y dudalen gartref gallwch sicrhau amcangyfrifon o:

- faint o bensiwn fyddai'n daladwy i chi
- beth fyddai'r symiau wedi'u lleihau'n actiwaraidd ar gyfer y gwahanol oedrannau
- beth fyddai uchafswm y talpswm y gallech ei hawlio

Gweler hefyd taflenni UCAC

- Ymddeoliad a'ch Pensiwn (Hen Gynllun)
- Ymddeoliad Cynnar

I gael unrhyw gyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, mererid@ucac.cymru
- Ioan Rhys Jones, Swyddog Maes y Gogledd, ioan@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, jen@ucac.cymru

Yn ogystal, mae modd cysylltu â:

- Dilwyn Roberts-Young, Ysgrifennydd Cyffredinol, dilwyn@ucac.cymru
- Rebecca Williams, Is-ysgrifennydd Cyffredinol a Swyddog Polisi, rebecca@ucac.cymru

Diweddaryd: Awst 2021



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

[f facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com/AthrawonCymru](https://www.twitter.com/AthrawonCymru)

www.ucac.cymru